# DATGANIAD YSGRIFENEDIG

Teitl: Rhaglen Diwygio'r Cynulliad: ymgynghoriad ar *Greu Senedd i Gymru*

Dyddiad: 12 Chwefror 2018

Gan: Elin Jones AC, Llywydd, fel Cadeirydd Comisiwn y Cynulliad

Mae *Deddf Cymru 2017* yn nodi dechrau cyfnod newydd o ddatganoli yng Nghymru, gan roi cyfle inni wneud newidiadau pell-gyrhaeddol i'n deddfwrfa. Mae gennym gyfle nawr i greu'r senedd genedlaethol y mae pobl Cymru'n haeddu ei chael i fod yn llais drostynt ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif. Senedd sy'n adlewyrchu pobl Cymru yn well ac y gallant fod yn falch ohoni.

Yn dilyn cytundeb unfrydol y Cynulliad a chyfnod o ymgynghori cyhoeddus, ym mis Mehefin 2017 cyhoeddais fod Comisiwn y Cynulliad wedi penderfynu cyflwyno deddfwriaeth i newid enw'r sefydliad i Senedd Cymru.

Mae hwn yn gam cyntaf pwysig tuag at sicrhau bod pawb yng Nghymru yn deall yr hyn y mae'r sefydliad yn ei wneud, a sut mae'n gweithio iddyn nhw a'u cymunedau. Fodd bynnag mae Deddf Cymru 2017 hefyd yn rhoi pŵer i'r Cynulliad i newid maint, system etholiadol a threfniadau mewnol y sefydliad, i wneud senedd sydd â'r capasiti a'r dyluniad i wirioneddol weithio i Gymru.

Y llynedd, sefydlodd Comisiwn y Cynulliad Banel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad i roi cyngor cadarn a gwleidyddol ddiduedd inni ar nifer yr Aelodau sydd eu hangen ar y Cynulliad, y system etholiadol fwyaf addas, a'r oedran pleidleisio isaf ar gyfer etholiadau'r Cynulliad. Ym mis Rhagfyr 2017, cyhoeddodd y Panel adroddiad manwl yn crynhoi ei drafodaethau. Gwnaeth argymhellion penodol, ac roedd ganddo neges glir am gapasiti'r sefydliad hwn i gyflawni ar gyfer pobl Cymru. Daeth i'r casgliad fod y Cynulliad, gyda dim ond 60 Aelod, yn rhy fach i gyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol.

Mae'r rhain yn faterion sylfaenol sy'n mynd i wraidd ein trefniadau cyfansoddiadol. Byddai cyflawni'r diwygiadau y mae *Deddf Cymru 2017* yn eu gwneud yn bosibl, ac y mae'r Panel Arbenigol yn eu nodi fel rhai angenrheidiol, yn gofyn am gonsensws gwleidyddol eang o fewn y Cynulliad ac yn fwy eang ledled Cymru.

Heddiw, felly, mae'r Comisiwn yn lansio ymgynghoriad cyhoeddus ar gwmpas y diwygiadau posibl y mae Deddf Cymru 2017 yn eu gwneud yn bosibl. Rydym am glywed gan bobl o bob cwr o Gymru, aelodau o'r cyhoedd, y gymdeithas wleidyddol a dinesig, academyddion, sefydliadau a rhanddeiliaid eraill. Rydym am glywed gan bobl sy'n aml yn ymgysylltu â'r Cynulliad a gwleidyddiaeth yng Nghymru, a chan bobl na fyddent fel arfer yn gwneud hynny.

Dyma ddechrau sgwrs gyda phobl a chymunedau Cymru am y math o sefydliad y maen nhw am i'w Senedd Cymru fod. Edrychaf ymlaen at glywed eu barn.

Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghoriad, a sut i ymateb, ar gael ar wefan y Cynulliad yn **www.cynulliad.cymru/seneddydyfodol**.